# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol The Channings

Abertawe Bro Morgannwg

University Health Board

Dyddiad yr arolygiad: 14 Rhagfyr 2017

Dyddiad cyhoeddi: 15 Mawrth 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@gov.wales**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-252-9



© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. What we did ........ 5

2. Summary of our inspection ........ 6

3. What we found ........ 8

   Quality of patient experience ........ 9

   Delivery of safe and effective care ........ 13

   Quality of management and leadership ........ 20

4. What next? ........ 23

5. How we inspect dental practices ........ 24

   Appendix A – Summary of concerns resolved during the inspection ........ 25

   Appendix B – Immediate improvement plan ........ 26

   Appendix C – Improvement plan ........ 28

## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol The Channings yn 33 Mary Street, Porthcawl, CF36 3YN, o fewnAbertawe Bro Morgannwg University Health Board Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 14 Rhagfyr 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau Iechyd a Gofal 2015, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol The Channings yn ymdrechu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer ei gleifion mewn amgylchedd dymunol, gyda staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig. Fodd bynnag, canfuom rywfaint o dystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu.
- Roedd y tîm staff yn gyfeillgar, yn groesawgar ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel.
- Roedd digon o gyfleusterau clinigol ac roeddent yn lân.
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol.
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio sganiau pelydr-X yn ddiogel.

Dyma'r hyn rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth ei wella:

- Mae angen sicrhau bod rhagor o wybodaeth hybu iechyd ar gael.
- Dylai'r system wifrau trydan gael ei gwasanaethu bob pum mlynedd.
- Dylid adolygu'r asesiad risg tân a'r asesiad risg amgylcheddol.
- Mae angen sicrhau y cynhelir hyfforddiant diweddaru ym maes dadheintio ac y nodir dyddiadau ar becynnau offerynnau dadheintio.
- Mae angen cynnal hyfforddiant radiograffeg ar gyfer nyrsys deintyddol.
- Mae angen adolygu proses/amlder ac arferion cadw cofnodion ar gyfer gwiriadau meddyginiaeth, y pecyn dadebru, deunyddiau deintyddol a’r cywasgydd.

- Mae angen sicrhau y cwblheir hyfforddiant diweddaru mewn cymorth cyntaf.
- Mae angen adnewyddu gwiriadau diogelu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer un deintydd.
- Mae angen i'r staff lofnodi a dyddio polisïau.
- Mae angen cryfhau arweinyddiaeth a rheolaeth.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol The Channings yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion ym Mhorthcawl a'r cylch. Mae’r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir ganAbertawe Bro Morgannwg University Health Board Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae gan y practis dîm staff sy'n cynnwys tri deintydd, dau therapydd, un hylenydd, pedair nyrs ddeintyddol (yr oedd dwy ohonynt dan hyfforddiant), ac un derbynnydd. Mae'r prif ddeintydd yn gweithredu fel rheolwr y practis ar hyn o bryd.

Mae'r practis yn darparu amrediad o NHS and privatewasanaethau deintyddol cyffredinol ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod Practis Deintyddol The Channings yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a'i fod yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol ar gyfer ei gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol iawn. Fodd bynnag, mae angen gwybodaeth hybu iechyd bellach.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC ymhlith cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 20 o holiaduron wedi'u cwblhau; derbyniwyd y mwyafrif o holiaduron gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers amser hir (y rhai a oedd wedi bod yn gleifion yno ers dros ddwy flynedd). Ar y cyfan, roedd yr adborth gan gleifion yn yr holiaduron yn gadarnhaol. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> "*Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn y practis hwn yn benigamp"*
>
> "*Mae'n diwallu fy anghenion a'm disgwyliadau'n berffaith"*
>
> "*Staff rhagorol, practis rhagorol"*

### Cadw'n iach

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Fodd bynnag, canfuom fod diffyg gwybodaeth hybu iechyd deintyddol benodol ar gael. Mae gwybodaeth hybu iechyd yn cynorthwyo cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u lles eu hunain. Mae hyn yn galluogi cleifion i gael mynediad at wybodaeth a allai eu cynorthwyo i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen sicrhau bod rhagor o wybodaeth hybu iechyd ar gael ar gyfer cleifion yn y mannau aros.

## Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis. Roedd lle ar gael i'r staff gael sgyrsiau â chleifion mewn man preifat i ffwrdd o gleifion eraill, pe bai angen, er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion. Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) yn cael eu cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pawb ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag y dymunent mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth a'u bod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth ar gael iddynt. Wrth ateb yr holiaduron, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a oedd wedi derbyn triniaeth yn y practis fod cost eu triniaeth bob amser yn cael ei hegluro iddynt; fodd bynnag, dywedodd cyfran fawr o'r cleifion hyn nad oeddent yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo. Fodd bynnag, gwelsom fod gwybodaeth ynghylch cost triniaeth y GIG a rhestr brisiau ar gyfer cleifion preifat ar gael yn y man aros, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o'r costau. Gwelsom fod manylion y deintyddion ac oriau agor y practis yn cael eu harddangos yn allanol, yn ffenestr y practis.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser. Dywedodd y cleifion fod y practis deintyddol yn anfon negeseuon testun i'w hatgoffa o ddyddiad ac amser eu hapwyntiad; dywedodd un claf wrthym yn yr holiaduron fod hyn yn ddefnyddiol iddo:

> *"Rwy'n hoffi'r negeseuon testun atgoffa am ei fod yn aml yn anodd cadw trefn ar ddyddiadur prysur"*

Dywedodd y prif ddeintydd nad oedd problemau iaith wedi codi hyd yn hyn. Gwnaethom gynghori'r practis i drefnu bod dogfennau allweddol, megis y

weithdrefn gwyno, yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg a bod manylion cyswllt ar gyfer gwasanaeth cyfieithu ar gael, pe bai unrhyw broblemau iaith yn codi.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol bob amser. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys ganddynt. Fodd bynnag, dywedodd chwech o'r 20 o gleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Gwelsom fod manylion rhifau cyswllt mewn argyfwng yn cael eu harddangos yn allanol yn ffenestr y practis, ac ar wefan y practis.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn cael gwybod am sut i ofalu am eu dannedd/deintgig a'u hannog i wneud hynny ar ôl a rhwng apwyntiadau.

### Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Mae ramp ar gael i fynd i mewn i'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear ac mae'n rhaid mynd trwy ddau ddrws; dywedwyd wrthym fod y rhain yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd / defnyddwyr cadeiriau olwyn os rhoddir cymorth. Mae mynediad at gyfleusterau toiled yn gyfyng i gleifion anabl; mae'r practis yn sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o hyn, a gallant gael eu hatgyfeirio at bractis arall pe bai'r cyfleuster hwn yn ofynnol.

### Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym na fyddent yn gwybod sut i leisio pryder neu gwyno am y gwasanaethau maent yn eu derbyn

yn y practis deintyddol pe bai angen iddynt wneud hynny. Canfuom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol y GIG a oedd yn cydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer lleisio pryderon am driniaeth y GIG (a adwaenir fel 'Gweithio i Wella').[1] Roedd gweithdrefn gwyno ar gyfer gofal deintyddol preifat hefyd ar gael, fel sy'n ofynnol yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008.[2] Roedd cleifion yn cael eu cyfeirio at wybodaeth am gwyno ar wefan y practis a thrwy daflen wybodaeth y practis. Yn dilyn cyngor a roddwyd ar ddiwrnod yr arolygiad, sicrhawyd bod manylion y gweithdrefnau cwyno hefyd ar gael / yn hygyrch yn yr ystafell aros, a rhoddwyd sicrwydd i ni y byddai hyn yn parhau. Bydd hyn yn golygu y gall cleifion ddod o hyd i'r wybodaeth hon yn hawdd pe bai angen.

Dim ond un gŵyn a dderbyniwyd yn ystod y 12 mis diwethaf, ac ymdriniwyd â hon yn briodol. Roedd fformat cwyno a ffeil gwyno ar waith. Roedd cofnod o bryderon a chanmoliaethau'n cael ei gadw ar wahân.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y practis deintyddol wedi gofyn am eu barn am y gwasanaeth a ddarperir yno – er enghraifft, trwy holiaduron i gleifion. Roedd mecanwaith ar waith yn y practis ar gyfer ceisio adborth cleifion trwy holiaduron. Gwelsom fod dadansoddiad o'r adborth a dderbyniwyd wedi'i arddangos yn ystafell y staff, a gwnaethom awgrymu y dylid gosod hwn yn y man aros i ddangos i'r cleifion y gweithredir ar adborth a geisir a bod yr adborth hwnnw'n cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i'r modd y darperir gwasanaethau yn y practis.

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=932&pid=50738

[2] https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Roedd digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent i'w gweld yn lân a thaclus. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau oedd ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant staff a chleifion. Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd.

Mae angen tystysgrif gwifrio trydanol bob pum mlynedd. Mae angen adolygiad o'r asesiad risg tân a'r asesiadau risg amgylcheddol. Mae angen hyfforddiant dadheintio ar gyfer pob aelod o staff perthnasol. Mae angen tystysgrif hyfforddiant cymorth cyntaf. Rhaid nodi dyddiad dadheintio a dyddiad dod i ben ar offerynnau dadheintio sydd wedi'u rhoi mewn bagiau'n barod i'w defnyddio.

Roedd offer dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac mae angen adolygu'r system wirio, ac amlder y gwiriadau sy'n cael eu cynnal, i helpu i sicrhau bod yr offer a'r cyffuriau'n ddiogel ac o fewn eu dyddiadau dod i ben. Dylai'r cofnodion ar gyfer y gwiriadau hyn a gwiriadau'r cywasgydd gael eu cadw ar wahân.

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl.

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd diogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw. Fodd bynnag, rhaid sicrhau bod hyfforddiant amddiffyn rhag ymbelydredd yn aros yn gyfredol ar lefel briodol ar gyfer nyrsys deintyddol. Canfuom fod yr arferion ar gyfer cadw cofnodion clinigol yn dda

iawn a'u bod yn cydymffurfio â safonau clinigol ar gyfer cadw cofnodion.

## Gofal diogel

## NODER: MATERION SICRWYDD AR UNWAITH

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd ar gyfer un aelod o staff yn unol â'n proses sicrwydd ar unwaith. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis ar unwaith wedi'r arolygiad, gan fynnu bod camau adferol brys yn cael eu cymryd. Rhoddir manylion y gwelliannau a nodwyd gennym yr oedd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio’n ddiogel yn y practis, ac roedd y gwaith o wasanaethu'r nwy yn gyfredol hefyd. Fodd bynnag, mae angen tystiolaeth o dystysgrif gwifrio trydanol bob pum mlynedd.

Roedd un toiled neillryw at ddefnydd cleifion a staff ar y llawr daear. Roedd arwyddion clir at y cyfleusterau hyn ac roeddent i'w gweld yn lân. Roedd y deintydd wedi trefnu bod bin gwaredu cynhyrchion hylendid benywaidd ar waith ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd asesiadau risg ar gyfer rheoli sylweddau peryglus i iechyd (COSHH) a thaflenni data diogelwch yn cael eu cadw ar gyfer sylweddau yn ogystal ag asesiadau risg; cynghorwyd y dylid adolygu'r rhain i sicrhau eu bod yn gyfredol. Mae angen storio sylweddau peryglus i iechyd yn ddiogel ar bob amser.

Roedd diffoddwyr tân ar gael ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf, ac roedd contract cynnal a chadw ar gyfer offer diogelwch tân ar waith hefyd. Roedd arwyddion tân ar gael. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r practis adolygu ei asesiad risg tân oherwydd bod drws yr allanfa dân yn y cefn dan glo ar ddiwrnod yr arolygiad. Nid oedd y drws tân hwn yn un safonol ac roedd angen ystyried y ffordd allan oherwydd bod y drws yn agor am y tu mewn, ac roedd yn agos at fwrdd staff a oedd yn effeithio ar hwyluster yr ymadael. Yn ogystal, mae angen ystyried y ffordd y caiff silindrau ocsigen eu storio, ac mae angen rhoi arwyddion clir iddynt.

Roedd polisi iechyd a diogelwch wedi ei fabwysiadu. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r practis adolygu ei asesiadau risg amgylcheddol er mwyn ystyried a chymryd camau mewn perthynas â threfniadau storio sylweddau peryglus i iechyd (COSHH) ac o ran y ffordd y caiff gwastraff peryglus ei gludo trwy'r adeilad, ac er mwyn gwirio'r holl ymagweddau o gael ystafell y ffisiotherapyddion ar y safle, e.e. diogelu data, croes-heintio. Dylai'r bocsys offer miniog gael eu gosod ar y wal er diogelwch hefyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen tystiolaeth o dystysgrif gwifrio trydanol bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad ac mae'n rhaid anfon copi at AGIC.

Mae'n rhaid i'r practis adolygu ei asesiadau risg tân a darparu manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd.

Mae'n rhaid i'r practis adolygu ei asesiadau risg amgylcheddol fel yr amlinellwyd, a hysbysu AGIC o'r camau a gymerwyd.

### Atal a rheoli heintiau

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol yn lân iawn. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy’n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol. Mae hyn oherwydd gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Roedd enghreifftiau’n cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Roedd cyfarpar diogelu personol – megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid – ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio’r offer mewn cyflwr da yn ôl pob golwg
- Roedd offer yn cael eu storio a'u cludo mewn modd priodol, ac roedd dyddiad ar eu pecynnau i ddangos erbyn pryd roedd yn rhaid eu defnyddio

Roedd polisi dadheintio ar waith. Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[3] Fodd bynnag, canfuom nad oedd gan yr holl aelodau perthnasol o staff dystiolaeth eu bod wedi cwblhau hyfforddiant dadheintio o fewn cylchred eu datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr offer dadheintio sydd wedi'u rhoi mewn bagiau'n barod i'w defnyddio wedi'u dyddio â dyddiad dadheintio a dyddiad dod i ben.

Roedd cyfleusterau golchi dwylo a threfniad sinc ddwbl ar gael yn yr ystafell ddadheintio. Roedd tystiolaeth o wiriadau o ran statws brechiadau imiwneiddio ar gyfer aelodau o staff ar gael.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen hyfforddiant dadheintio ar bob aelod perthnasol o staff.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod gan yr offer sydd wedi'u rhoi mewn bagiau'n barod i'w defnyddio ddyddiad dadheintio a dyddiad dod i ben wedi'u cofnodi arnynt.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion ac roedd y rhain yn cael eu harddangos mewn ardaloedd perthnasol. Roedd yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol. Roedd polisi dadebru ar waith a oedd yn cynnwys lleoliad y cyfarpar a rolau a chyfrifoldebau.

Fodd bynnag, mae angen gwella'r prosesau ar gyfer gwirio eitemau sydd yn y pecyn dadebru yn rheolaidd, oherwydd canfuom fod rhai darnau ceg wedi mynd heibio eu dyddiad dod i ben a/neu nad oeddent wedi'u selio. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Fodd bynnag, mae angen rhoi mwy o wiriadau rheolaidd ar waith a chadw cofnod ar wahân ar gyfer cyffuriau brys a deunyddiau deintyddol, er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio. Y prif ddeintydd oedd y swyddog cymorth

[3] https://www.walesdeanery.org/quality-improvement/national-audit-projects/whtm-01-05

cyntaf penodedig yn y practis, ond ni welsom dystiolaeth fod ganddo dystysgrif hyfforddiant cymorth cyntaf gyfredol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid adolygu a nodi rolau ac amlder y gwiriadau ar gyfer meddyginiaethau brys, y deunyddiau deintyddol sy'n cael eu storio, gwiriadau'r cywasgydd a'r offer dadebru. Dylid sicrhau y cedwir cofnodion clir, ar wahân.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y cedwir hyfforddiant cymorth cyntaf yn gyfredol, yn ôl y gofynion.  Mae angen anfon copi o'r dystysgrif hyfforddiant cymorth cyntaf ymlaen at AGIC.

## Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl

Mae'r practis yn cymryd camau priodol i hybu ac amddiffyn llesiant a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed a allai fod mewn perygl. Mae hyn oherwydd bod polisïau amddiffyn ar waith a bod hyfforddiant ar ddiogelu wedi'i ddarparu ar gyfer staff perthnasol. Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn mewn gwirionedd.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom sylwi bod yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cynllunio a'u trefnu i helpu’r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da.

Gwelsom fod yr amgylcheddau wedi cael eu cynllunio a'u trefnu i sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu’n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod staff a oedd yn cymryd rhan yn y gwaith o dynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.[4] Fodd bynnag,

[4] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

nid oedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod rhai nyrsys deintyddol wedi cael lefel briodol o hyfforddiant amddiffyn rhag ymbelydredd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i hyfforddiant amddiffyn rhag ymbelydredd fod yn gyfredol ar lefel sy'n briodol ar gyfer nyrsys deintyddol yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir. Gwelsom fod y practis wedi ymgymryd ag archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau, radioleg a chadw cofnodion.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Cynghorir y prif ddeintydd i adolygu'r prosesau ar gyfer rheoli ansawdd yn fewnol, trwy ddefnyddio offeryn gwerthuso argymelledig y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.[5] Gwelwyd tystiolaeth ar ffeiliau hyfforddiant y deintyddion o dystysgrifau datblygiad proffesiynol parhaus. Fodd bynnag, roedd angen gwella’r gwaith o reoli a threfnu'r ffeiliau ar y cyfan.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd y ffordd yr oedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio’n cael ei hystyried yn ddigonol, er mwyn sicrhau diogelwch eu data personol. Mae'r deintydd yn bwriadu prynu cypyrddau metel cloadwy ar gyfer y ffeiliau maes o law. Ar hyn o bryd, caiff cofnodion papur eu storio y tu ôl i'r dderbynfa, mewn cypyrddau metel na ellir eu cloi. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod tri drws cloadwy i’r dderbynfa, ac mae staff yn bresennol yno yn ystod oriau agor ac mae ffenestri diogel yno hefyd. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei

[5] Mae'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth yn offeryn datblygu ymarfer ar gyfer y tîm deintyddol cyfan sy'n helpu timau deintyddol i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at y sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd polisi diogelu data ar waith.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deintyddol ar gyfer pob deintydd, a gwnaethom siarad â'r ymarferwyr deintyddol ar ddiwrnod ein harolygiad. Ar y cyfan, cawsom fod ansawdd y cofnodion a gedwid a'r gofal cleifion yn dda iawn. Ni nodwyd unrhyw welliannau yn y maes hwn ac felly mae ansawdd cadw cofnodion clinigol i'w ganmol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom ystyried hefyd sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Y prif ddeintydd oedd perchennog y practis. Roedd dau ddeintydd arall, a thîm staff cyfeillgar a oedd wedi ymgartrefu. Roedd y prif ddeintydd yn gyfrifol am y cymorth clinigol a gweithrediad y practis o ddydd i ddydd.

Mae angen cryfhau ac ailymweld â systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis. Byddai dirprwyaeth bellach o rolau a chyfrifoldebau yn cefnogi cadw trosolwg effeithiol o brosesau ac yn cynorthwyo â gweithrediad y practis o ddydd i ddydd.

Gwelsom fod arlwy o bolisïau perthnasol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch-staff y practis a'u cydweithwyr, a'u bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddi. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

Mae angen gwiriad diogelu cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer un deintydd, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Dylai'r tîm staff lofnodi a dyddio polisïau a gweithdrefnau allweddol er mwyn nodi eu bod wedi eu darllen a'u deall.

### Llywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Bractis Deintyddol The Channings, a chaiff ei gefnogi gan ddau ddeintydd arall a'r tîm practis ehangach. Mae'r prif ddeintydd yn gyfrifol am y cymorth clinigol a gweithrediad y practis o ddydd i ddydd.

Cydnabu'r prif ddeintydd y rhoddir llawer o bwyslais arno ar hyn o bryd, ac y gallai’r llywodraethu a’r arweinyddiaeth gael eu gwella a'u cryfhau wrth symud ymlaen. Byddai o fudd iddo petai’n derbyn cymorth â rheolaeth y practis o ddydd i ddydd trwy ddirprwyo rolau a chyfrifoldebau. Lle y gwnaethom nodi meysydd i'w gwella, dangosodd y prif ddeintydd ymroddiad i fynd i'r afael â'r rhain.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi gan bob un o aelodau tîm y practis. Canfuom fod y staff yn eglur am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da ymhlith tîm y practis. Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd practis, a oedd wedi cael eu cynnal yn rheolaidd, a gwelsom fod camau gweithredu a chofnodion yn cael eu cadw.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r prif ddeintydd ystyried y ffordd y gall cyfrifoldebau llywodraethu ac arwain gael eu dirprwyo a/neu eu cryfhau.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn meysydd y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn eu hargymell yn fawr iawn. Roedd angen i un deintydd gwblhau hyfforddiant diweddaru mewn perthynas â dadebru cardio-pwlmonaidd.

Roedd gan y practis dîm staff cyson a sefydlog, a chafodd gwaith tîm da ei adrodd a'i weld ar ddiwrnod yr arolygiad. Cadarnhaodd y prif ddeintydd fod staff wedi derbyn arfarniad o'u perfformiad o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Canfuom fod deintyddion a staff nyrsio wedi'u cofrestru i ymarfer gyda’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yswiriant indemniad ar waith ganddynt.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag hepatitis B, i amddiffyn eu hunain a chleifion rhag heintiau. Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau

deintyddol preifat, a gwelsom fod eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC wedi'u harddangos mewn lle amlwg, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogaeth unrhyw aelodau newydd o staff yn cael eu cynnal cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, nid oedd gwiriadau diogelu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol ar gyfer un deintydd, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Ni welsom dystiolaeth fod staff yn llofnodi ac yn dyddio er mwyn nodi eu bod wedi darllen a deall polisïau allweddol, ac felly eu bod yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen gwiriadau diogelu cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer un deintydd, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Rhaid darparu tystiolaeth o hyn ar gyfer AGIC.

Dylai'r tîm staff lofnodi a dyddio'r polisïau a gweithdrefnau allweddol er mwyn nodi eu bod wedi eu darllen a'u deall.

# 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf deuddeg wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant yn weithredol ac yn strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## **Atodiad A** – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen i'r pryderon hyn dderbyn sylw ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y datryswyd y pryder |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol The Channings

## Dyddiad yr arolygiad: 14 Rhagfyr 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Canfyddiad<br><br>Canfuom fod tystysgrif hyfforddiant un deintydd ar ddadebru cardio-pwlmonaidd wedi dod i ben ac felly roedd angen ei diweddaru yn unol â'r rheoliadau.<br><br>Yr hyn y mae angen ei wella<br><br>Mae angen i'r prif ddeintydd hysbysu AGIC pan fydd hyfforddiant ar ddadebru cardio-pwlmonaidd wedi'i ddiweddaru yn unol â'r rheoliadau. Mae angen anfon copi o dystysgrif | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (1) (b)<br><br>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.3 | Mae'r deintydd a enwyd uchod wedi cwblhau pedair awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus ar achosion brys meddygol, gan gynnwys (ond heb gyfyngedig iddynt) anaffylacsis, epilepsi, diabetes, llewygu a thagu.<br><br>Rydym hefyd wedi trefnu sesiwn ymarfer ar ddadebru cardio-pwlmonaidd (pedair awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus) ar gyfer y flwyddyn newydd (9 Chwefror, sef y dyddiad rhesymol agosaf y bydd yn bosib i'r deintydd | Kenneth Chow | I'w gwblhau ar 9 Chwefror; tystysgrifau i'w hanfon cyn gynted ag yr ydym yn eu derbyn. |

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| yr hyfforddiant ar ddadebru cardio-pwlmonaidd at AGIC fel tystiolaeth. | | dan sylw ac aelodau eraill o staff fynd i'r hyfforddiant). | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei weithredu.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:Kenneth Chow**

**Enw (llythrennau bras):Kenneth Chow**

**Swydd: Prif ddeintydd**

**Dyddiad: 17 Rhagfyr 2017**

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol The Channings

## Dyddiad yr arolygiad: 14 Rhagfyr 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae angen sicrhau bod rhagor o wybodaeth hybu iechyd ar gael ar gyfer cleifion yn y mannau aros. | Safonau Iechyd a Gofal 4.2 a 5.1<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, 14 (1) (a)<br><br>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol | Archebu posteri/ffurflenni sy'n hybu iechyd a'u harddangos yn yr ystafell aros. | Kim Evans (nyrs ddeintyddol) | Yn barhaus, i'w gwblhau erbyn 31 Mawrth 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 1.4.2 | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae angen tystiolaeth o dystysgrif gwifrio trydanol bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad ac mae'n rhaid anfon copi at AGIC. | Safonau Iechyd a Gofal 2.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, 14 (1) (d) | Cysylltu â thrydanwr i drefnu profion gwifrio trydanol a thrydanwr ardystiedig i ddod ar 9 Chwefror 2018. | Kenneth Chow (prif ddeintydd) | Tystysgrif ar gael erbyn 28 Chwefror 2018 |
| Mae'n rhaid i'r practis adolygu ei asesiad risg tân a darparu manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd. | Safonau Iechyd a Gofal 2.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, 14 (1) (d) | Cysylltwyd â chwmni diogelwch tân i adolygu'r asesiad risg tân ar 2 Chwefror 2018. | Kenneth Chow (prif ddeintydd) | Asesiad risg i'w gwblhau erbyn 28 Chwefror 2018 |
| Mae'n rhaid i'r practis adolygu ei asesiadau risg amgylcheddol fel yr amlinellir, a hysbysu AGIC | Safonau Iechyd a Gofal | Adolygwyd y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a'r polisi asesu risg cyffredinol. Asesiad | Kim Evans, Neave Lacey | Cwblhawyd yr adolygiad o'r |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| o'r camau a gymerwyd. | 2.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, 14 (1) (d) | risg tân i'w adolygu. | (nyrs ddeintyddol) | Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd ac o'r polisi asesu risg. Adolygiad o'r asesiad risg tân i'w gwblhau erbyn 31 Mawrth 2018. |
| Mae angen hyfforddiant dadheintio ar bob aelod perthnasol o staff.<br>Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod gan yr offer dadheintio sydd wedi'u rhoi mewn bagiau'n barod i'w defnyddio ddyddiad dadheintio a dyddiad dod i ben wedi'u cofnodi arnynt.<br>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 | Safonau Iechyd a Gofal 2.4<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, 14 (1) (b), 14 (4) | Hyfforddiant ar-lein ar ddadheintio yn barhaus ar gyfer pob aelod o staff.<br>Bydd hyfforddiant ar ddadheintio ar y safle yn cael ei drefnu ar ôl adeiladu'r ystafell ddadheintio yn yr haf.<br>Prynwyd stampiau newydd i gynnwys 'dyddiad dod i ben' ar offer sydd wedi'u rhoi mewn bagiau. | Kim Evans | Hyfforddiant ar-lein i'w gwblhau erbyn 28 Chwefror 2018.<br>Hyfforddiant ar y safle i'w gwblhau erbyn 31 Gorffennaf |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 2018.<br><br>Rhoddwyd dyddiad dod i ben ar offer sydd wedi'u rhoi mewn bagiau, ac mae'n barhaus. |
| Mae'n rhaid adolygu a nodi rolau ac amlder y gwiriadau ar gyfer meddyginiaethau brys, y deunyddiau deintyddol sy'n cael eu storio, gwiriadau'r cywasgydd a'r offer dadebru. Dylid sicrhau y cedwir cofnodion clir, ar wahân. | Safonau Iechyd a Gofal 2.1, 2.6, 2.9<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, 14 (1) (b) | Penodi aelod o staff i fod yn gyfrifol am wiriadau ar y meddyginiaethau brys, y deunyddiau deintyddol, y cywasgydd a'r cyfarpar dadebru; mae taenlenni ar gyfer yr uchod wedi'u llunio. | Kim Evans | Cwblhawyd |
| Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod hyfforddiant cymorth cyntaf yn gyfredol, yn ôl y gofynion. Mae angen anfon copi o dystysgrif hyfforddiant cymorth cyntaf ymlaen at AGIC. | Safonau Iechyd a Gofal 2.1<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth | Hyfforddiant cymorth cyntaf i'w drefnu. Hyfforddiant cymorth cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 11 Ebrill 2018; tystysgrif i'w ddilyn. | Kenneth Chow, Kim Evans | 30 Ebrill 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Breifat (Cymru) 2008, 14 (1) (b) | | | |
| Rhaid i hyfforddiant amddiffyn rhag ymbelydredd fod yn gyfredol ar lefel sy'n briodol ar gyfer nyrsys deintyddol yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. | Safonau Iechyd a Gofal 2.9<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, 14 (1) (b)<br><br>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 7.3.1 | Cwblhaodd un nyrs ddeintyddol hyfforddiant ar ymbelydredd y llynedd (2017); dangoswyd tystysgrif i'r arolygydd ar ddiwrnod yr arolygiad.<br><br>Mae'r ail nyrs ddeintyddol yn cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn rhag ymbelydredd ar-lein ar hyn o bryd. | Neave Lacey | I'w gwblhau erbyn 28 Chwefror 2018 |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Dylai'r prif ddeintydd ystyried y ffordd y gall cyfrifoldebau llywodraethu ac arwain gael eu dirprwyo a/neu eu cryfhau. | Safonau Iechyd a Gofal 3.3<br><br>Rheoliadau | Penodi prif nyrs ddeintyddol. | Kenneth Chow | Trafodaeth yn mynd yn ei blaen; gobeithio penodi aelod |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, 14 (2) | | | o staff yn y swydd erbyn 28 Chwefror 2018. |
| Mae angen gwiriadau cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer un deintydd, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Rhaid darparu tystiolaeth o hyn ar gyfer AGIC. | Safonau Iechyd a Gofal 2.7<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008,<br>13 (3) (c) | Wedi gwneud cais am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Mushtaq Shah (deintydd cyswllt) | 28 Chwefror 2018 |
| Dylai'r tîm staff lofnodi a dyddio'r polisïau a gweithdrefnau allweddol er mwyn nodi eu bod wedi eu darllen a'u deall. | Safonau Iechyd a Gofal 7.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, 14 (1) (d) | Bydd pob aelod o staff yn darllen, llofnodi a dyddio'r polisïau er mwyn dangos hyn. | Kim Evans | 28 Chwefror 2018 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei weithredu.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras):Kenneth Chow**

**Swydd:** Prif ddeintydd

**Dyddiad:** **26 Ionawr 2018**